

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth

59%

YN WEITHGAREDDAU LLAETH



1,748

O FFERMYDD LLAETH WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIOT

Prosiectau Safleoedd Arddangos

Mountjoy: Lleihau'r defnydd o wrthfotigau

Yn fferm Mountjoy, dim ond 10% o'r gwartheg godro sy'n cael eu sychu gyda gwrthfotig, diolch i reolaethau mastitis gwyd a chyfradd heintiad o 7.8 achos bob 100 buwch. Yn y gorffennol, bu'r ffermwr, William Hannah, yn rhoi tiwb i'w holl wartheg gyda gwrthfotig wrth eu sychu fel mater o drefn, ond nawr mae'n defnyddio gwrthfotig yn fwy dethol, gan drin y gwartheg sydd ei angen yn unig. Yn 2020, dim ond 38 o'r fuches 370 o wartheg Friesian Seland Newydd a gafodd eu sychu gyda gwrthfotig – arbediad o £1,350.

I gyflawni'r lefel cyfredol o 7.8 achos o fastitis ym mhob 100 buwch, mae'r cyfartaledd cenedlaethol yn agosach i 50 achos, tynnir y gwartheg sydd wedi cael mwy na dau achos o fastitis o'r fuches.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y cyfnod sychu yn dechrau dair wythnos ynghynt gan ddefnyddio data cofnodi llaeth i adnabod y gwartheg sydd â chyfrif celloedd sy'n uwch nag 250,000 cell/ml. Yn nhymor 2020-21, y cyfanswm oedd 18 o wartheg. Rhoddir marc ar glustiau'r gwartheg hyn er mwyn defnyddio gwrthfotig wrth eu sychu, cyn sychu'r brif fuches ynghyd â'r gwartheg sydd â mwy nag un achos o fastitis, y rhai oedd â niwed i'r deth neu â dafadennau neu heintiau i'w groth. Caiff y rhain eu tiwbio gyda seliwr a gwrthfotig. Yn ystod y pum diwrnod cyn sychu'r brif fuches, caiff swm y dwysfwd ei leihau o 4kg/buwch/y dydd i 1kg. Disodlir y silwair gyda gwair sydd â lefel uchel o ffibr gan arwain at ostyngiad yn lefelau cynhyrchu llaeth. Yn ystod y cyfnod sych diweddaraf, gostyngodd cynhyrchiant llaeth dyddiol o 14 litr i 7 litr. Bydd Mr Hannah yn monitro rhagolygon y tywydd ar gyfer yr wythnos cyn sychu ei wartheg, gan wneud yn siŵr fod y sychu yn cael ei wneud ar ddiwrnod sych er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo bacteria mewn dŵr.

Nantglas: Cynyddu cynhyrchiant llaeth drwy wella perfformiad glaswelltir

Mae Iwan Francis, sydd yn ffermio Nantglas, yn teimlo nad yw'n gwneud defnydd llawn o'i laswellt, naill ai o borthiant neu laswellt sy'n cael ei bori. Nod y prosiect yw gwella cyfanswm y cynnyrch o borthiant a glaswellt wedi ei bori gan y fuches o 200 o fuchod math Seland Newydd sy'n lloia mewn dau floc.

Cymerwyd samplau pridd ar y fferm er mwyn sicrhau fod lefelau'r maetholion yn gywir. Bu'r Iwan a'r ymgynghorydd Nigel Howells, yn trafod y canlyniadau, a chynghorodd Nigel y canlynol:

- Roedd y bloc pori a oedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr haf gan y stoc ifanc angen calch er mwyn gwella ansawdd y borfa a chynyddu'r swm a dyfir er mwyn codi lefelau'r pH o 5.5 i dros 6.2.
- Byddai'r bloc hwn hefyd angen 20kg o P205 (Ffosforws Pentocsid)/ha er mwyn cyrraedd y lefel delfrydol, ac er mwyn helpu gyda datblygiadau'r gwreiddiau.
- Oherwydd lefelau'r pH, roedd ansawdd y silwair a gynhyrchwyd o'r bloc hwn yn waelach na'r disgwyl, ac roedd rhaid defnyddio dwysfwd ategol er mwyn cynnal twf y da byw.
- Trwy edrych ar y canlyniadau ar gyfer y bloc pori yn Nantglas, roedd gan hanner o'r samplau lefelau isel o ffosfad, a phob un bron gyda lefelau isel o botash. Gallai hyn fod o ganlyniad i brotocol y fferm o wasgaru slyri a thail buarth ar y blociau tir i ffwrdd o'r fferm sy'n cael eu defnyddio ar gyfer silwair ac sydd felly'n gofyn am fwy o'r maetholion hyn.
- Oherwydd cynnydd mewn achosion Pica'r llynedd, bydd samplau o laswellt ffres yn cael eu cymryd ynghyd â sampl pridd o'r un cae mae'r gwartheg yn ei bori. Bydd elfennau mwynol a hybrin yn cael eu dadansoddi er mwyn gweld pa faetholion sydd ar gael o fewn y pridd.

Gweminarau



CYNHALIYD

24 GWEMINAR GYDA THEMÂU LLAETH

gyda



1194

O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Paratoi ar gyfer troi allan yn y gwanwyn



Awgrymiadau da ar gyfer gwneud silwair



Defnyddio'r Mynegai Lloia'r Gwanwyn (£SCI) i fridio gwartheg proffidiol ar gyfer buches sy'n lloia mewn dau floc yn ystod y gwanwyn.



Grwpiau Trafod



CYNHALIYD

38 CYFARFOD GRŴP TRAFOD GYDA LLAETH

gyda **568**

O FYNICHWYR

Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 14

Astudiaeth Achos

Cynhaliwyd cyfarfod grŵp trafod gyda Grŵp Llaeth Sanclêr ar lunio proffiliau metabolig o wartheg godro. Y siaradwyr oedd David Staak ac Alice Jackson o Market Hall Vets.

Dechreuodd David drwy ddatgan fod llunio proffiliau metabolig yn cael ei wneud drwy gymryd samplau gwaed o wartheg, ac mae'n arf defnyddiol iawn mewn dangos diffygion dietegol. Disgrifiodd David ddiets buwch mewn tri cham:

- Diet ar bapur
- Diet wedi'i gymysgu
- Diet mae'r fuch yn ei fwyta

Soniodd David y gall gwahaniaethau mawr fod rhwng y diet sydd ar bapur, a allai fod yn berffaith, i'r diet mae'r fuch yn ei fwyta oherwydd nifer o ffactorau, megis cymysgu cynhwysion yn anghywir, diffyg lle wrth y cafn ac ati.

Mae proffiliau metabolig yn asesu'r canlynol:

- Statws egni
- Protein Diraddadwy Effeithiol yn y Rwmen (ERDP)
- Protein Dietegol Aniraddadwy (DUP)
- Statws magnesiwm

Gall helpu i atal nifer o gyflyrau, megis:

- Ffrwythlondeb gwael
- Cloffni
- Mastitis
- Clwy'r llaeth
- Dera'r borfa (stagers)

Yn dilyn esboniad o ran pa fuchod dylid eu samplu a'r hyn sy'n cael ei brofi, soniodd y ddau siaradwr am bum set o ddata enghreifftiol gan ddechrau drwy ddarparu gwybodaeth ar y fuches (maint y fuches, system lloia, system fwydo ayb) a'r materion a'r rhesymau dros lunio proffiliau metabolig (e.e. ffrwythlondeb gwael, llai o gynnyrch na'r disgwyl a chlwy'r llaeth). Yna, symudon nhw ymlaen at ddadansoddi'r canlyniadau a darparwyd argymhellion i'r ffermwr. Roedd angen mynd i'r afael â materion cyffredin, megis peidio gadael i wartheg sych i fynd yn rhy dew, yr angen i gynyddu'r gofod wrth y cafn a gwella ansawdd silwair a'r diet.

Gwella iechyd y pwrs/cadair i'r eithaf er mwyn gwella perfformiad y fuches drwy brofion deinamig

Mae canlyniadau rhagarweiniol y prosiect EIP hwn yn dangos fod adnabod ac unioni achos o or-odro yn gallu gwella iechyd y pwrs/cadair a pherfformiad y gwartheg. Mae pedwar ffermwr llaeth o Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio gyda'u milfeddyg, Dr Sotirios Karvountzis, er mwyn canfod buddion trefn profion deinamig. Mae'n brawf ar berfformiad y parlwr trwy wirio os yw'r unedau llaeth yn cael eu tynnu'n brydlon, fod cyfradd y pylsadu'n gywir a bod y leinwyr yn ffitio'n gywir yn ogystal â chyfrifo cyfrifiadau celloedd a'r defnydd o wrthfotig. Bydd hyn yn rhoi darlun cyflawn o berfformiad ymarferol y parlwr a gellir pennu sut mae hyn yn effeithio ar iechyd y gwartheg.

Mae gor-odro yn digwydd pan fo unedau llaeth yn cael eu gadael am ormod o amser, ac er nad oes llif llaeth, bydd cryfder y gwactod yn parhau i fod yn gryf. Yn aml, gellir unioni hyn drwy addasu'r tynnwyr clystrau awtomatig (ACR). Maes arall lle gellid ei wella yw'r drefn cyn godro. Mae'n rhan hanfodol gan ei fod yn ysgogi'r fuwch i ryddhau ei llaeth. Trwy ddilyn yr un drefn, bydd ocsitosin yn cael ei ryddhau gan achosi i'r fuwch ollwng ei llaeth. Mae amseru'r drefn cyn godro yn hynod o bwysig oherwydd os nad yw amser paratoi'r tethi a'r amser atodi'r unedau llaeth yn cyd-daro gyda'r amser pan mae'r llaeth yn cael ei ollwng, daw llif llaeth i ben am gyfnod.

Mae'r holl newidiadau sy'n cael eu gwneud yn arwain at well iechyd y pwrs/cadair, a llai o achosion o fastitis, ac felly gostyngiad yn nefnydd gwrthfotigau.




Ffigwr 1. Unedau llaeth

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

CYNHALIUYD **17** O WEITHDAI gyda **171** O FNYCHWYR

Ymwrthedd i wrthfotigau	TB buchol
Magu lloi iach a sicrhau'r elw mwyaf	Iechyd stoc ifanc



Ffigwr 2. Nifer o fynychwyr pob modiwl Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cymorthfeydd

CYNHALIUYD **12** O GYMORTHFYDD

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Cyfreithiol	Marchnata ac arallgyfeirio
Cynllunio	Busnes

Roedd **16** o fusnesau a fynychodd y cymorthfeydd hyn yn dod o'r sector llaeth. Roedd 7 o'r busnesau hyn eisiau edrych ar arallgyfeirio'r fferm, naill ai trwy werthu eu cynnyrch neu drwy drawsnewid adeiladau nad ydynt yn ei ddefnyddio ar y fferm ar hyn o bryd.

Rhaglen Fentora

107 O FFERMWYR LLAETH yn cael eu mentora ar hyn o bryd

Roedd pynciau allweddol yn cynnwys:

Trawsnewid i ffermio llaeth	Cynhyrchu llaeth yn organig
Rheoli glaswelltir	Olyniaeth

Cliciwch yma i weld y Cyfeiriadur Mentoriaid llawn

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **188** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i fewn y sector llaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori:

Categori	Nifer
Cynllunio a datblygu busnes	6
Defnyddio meddyginiaethau milfeddygol mewn modd diogel	7
Tryc codi telesgopig argyfer tir garw	3
Trimio traed gwartheg	7

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ymhob categori oedd:

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

CYFLYRAU LLYGAID MEWN GWARTHEG	AFIECHYD JOHNE'S MEWN GWARTHEG
DIGORNIO LLOI	CLOFFNI GWARTHEG

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.